**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Medi 2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyng A M Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cyng E A Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Simmons | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am farwolaeth y Diffoddwr Tân Chris Burns yn dilyn afiechyd hir ac anodd. Yn ogystal â bod yn ddiffoddwr tân yng ngorsaf dân Bae Colwyn, Chris oedd ysgrifennydd Undeb yr FBU ar gyfer Gogledd Cymru a bu'n sylwedydd rheolaidd yng nghyfarfodydd yr Awdurdod dros y blynyddoedd. Roedd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a dau Gadeirydd blaenorol yr Awdurdod wedi mynd i'r angladd, ynghyd â nifer o swyddogion a chydweithwyr. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau y bydd y Gwasanaeth yn rhoi cefnogaeth i deulu a chydweithwyr Chris. Cafwyd munud o dawelwch yn y cyfarfod fel arwydd o barch.

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 GORFFENNAF 2012

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd materion yn codi.

4 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2013-14

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a ofynnai i'r Aelodau gytuno ar argymhellion y Panel Gweithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub o ran y rhagdybiaethau i'w defnyddio yn y broses o osod y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14. Cyflwynir cyllideb ddrafft fanwl i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2012.

4.2 Yn unol â strategaeth ariannol tymor canolig yr Awdurdod, a osodwyd yn Rhagfyr 2010, i leihau ei gyllideb £800,000 y flwyddyn dros 3 blynedd, disgwylir cyflawni hyn yn 2013-14 (blwyddyn 3) drwy leihau cyllideb diogelwch cymunedol £50,000 arall, gostwng nifer y swyddi staff yr ochr gefnogol £180,000, a chael £500,000 arall trwy'r trefniadau cylchrestru wrth i ddiffoddwyr tân adael a pheidio â chyflogi rhai yn eu lle. Bydd y ffigwr o £70,000 sydd ar ôl yn cael ei dynnu o linellau eraill yn y gyllideb.

4.3 Cafodd yr Aelodau wybod y gallai pwysau ychwanegol a risgiau posibl effeithio ar y gyllideb. Dywedodd y DBST wrth yr Aelodau y cytunwyd ar ôl-daliad o 1% ar gyfer diffoddwyr tân, a byddai'n cael ei ôl-dalu at Orffennaf 2012, ond nodwyd fodd bynnag fod hyn i'w ddisgwyl ac roedd wedi ei ffactorio i mewn i'r gyllideb. Roedd mwy o bryderon y gallai'r cyllid ar ffurf grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru gael ei leihau neu ei dynnu ymaith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

4.4 **PENDERFYNWYD:**
- **(i) nodi'r strategaeth ariannol sydd yn y cynllun ariannol tymor canolig;**
- **(ii) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub y dylid mynd ar ôl y ffyrdd y cytunwyd arnynt eisoes o sicrhau'r arbedion hynny;**
- **(iii) nodi'r risgiau sy'n ymwneud â gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14;**
- **(iv) derbyn rhagor o wybodaeth os gwireddir y risgiau posib hynny.**

5 Y CYNLLUN GWELLA

5.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr adroddiad a ofynnai i Aelodau gwblhau'n derfynol argymhellion y Panel i'r Awdurdod Tân ac Achub ar ôl ystyried cynigion Gweithgor y Cynllun Gwella o ran Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol.

5.2 Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a gosod Amcanion Gwella bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori'n gyntaf ar yr amcanion hynny gyda chynrychiolwyr partïon sydd â buddiant.

5.3 Roedd Gweithgor y Cynllun Gwella wedi cyfarfod nifer o weithiau dros yr haf i ystyried gwybodaeth a thrafod y gwaith o ddatblygu amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14; bu hefyd yn ystyried sut y gellid symud ymlaen â'r gwaith o gefnogi datblygiad amcanion gwella yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfod o Weithgor y Cynllun Gwella y bore cyn cyfarfod y Panel Gweithredol. Roedd yr Aelodau wedi derbyn copi o'r ddogfen ymgynghori ddrafft, ac roeddent yn eithaf bodlon â hi, ac yn nodi y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i mewn cyn ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub i gael eu cymeradwyaeth derfynol cyn ei chyhoeddi.

5.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi bod Gweithgor y Cynllun Gwella, ar y cyfan, yn fodlon gyda dogfen ddrafft ymgynghoriad y Cynllun Gwella a oedd yn cynnwys Amcanion Gwella'r Awdurdod;**

**ii) cadarnhau fod y Panel Gweithredol yn argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2012:**

**a) Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14; a**

**b) y dylai unrhyw waith paratoi, fel bo'r angen, gael ei wneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Amcanion Gwella yr Awdurdod yn y blynyddoedd i ddod.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Roedd yr adroddiad monitro perfformiad yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn monitro perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella. Yn ogystal â'r adroddiad yn seiliedig ar chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2012-13, roedd yr Aelodau hefyd wedi cael, er gwybodaeth, y data monitro perfformiad am flwyddyn adrodd lawn 2011-12.

6.2 Aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân â'r Aelodau drwy'r wybodaeth am berfformiad yn chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2012-13, gan dynnu sylw at y canlynol (o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf):

- gostyngiad o 13% yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau

- cynnydd o 17% yn nifer y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn anheddau – gellir gweld cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y categori hwn oherwydd bod pobl yn gwybod beth i'w wneud petai tân yn cychwyn. Ystyrir bod modd priodoli hyn i waith y Gwasanaeth ym maes darparu archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, gan gynnwys cyngor ynglŷn â dianc yn ddiogel pan fydd tân yn cychwyn

- presenoldeb larymau tân mewn anheddau lle mae tân yn digwydd – c gellir gweld cynnydd graddol yn y dangosydd hwn oherwydd bod larwm mwg gan fwy o gartrefi, a'r rheini'n cael eu gosod yn rhad ac am ddim gan y Gwasanaeth

- erbyn hyn nid oes pryder am gynnydd yn y categori 'larwm mwg yno ond heb ganu pan fu tân'. Yn dilyn ymchwil, canfuwyd bod hyn yn bennaf wedi digwydd oherwydd bod tân wedi cychwyn mewn rhan arall i'r tŷ yn

rhy bell oddi wrth y larwm mwg i wneud iddo ganu. Er hynny, mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar y dangosydd lle nad oedd larwm o gwbl yn yr annedd.

- da yw nodi bod 40% o'r archwiliadau diogelwch tân a gynhaliwyd wedi eu gwneud o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni, mae hyn yn uwch na'r targed o 25%, ac mae'n dangos bod gweithio mewn partneriaeth gyda gwahanol asiantaethau yn y Gogledd wedi cael effaith gadarnhaol ac yn gymorth i'r Gwasanaeth dargedu'r bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas

- bu gostyngiad o 19% yng nghyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd atynt, ac er bod gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau bwriadol, maent yn dal i fod yn 50% yr holl danau yr awn atynt. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi llawer o sylw i ostwng nifer y tanau bwriadol

- eto, bu gostyngiad o 26% yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig, ac mae'r Gwasanaeth yn brysur yn atal y tanau hyn.

6.3 Gofynnodd y Cyng. P R Lewis a oedd tanau simnai yn digwydd oherwydd y tanwydd a ddefnyddir ynteu oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw oherwydd y dirwasgiad. Cytunwyd y dylid ymchwilio i'r mater ac ymateb i'r Cyng. Lewis trwy e-bost yn ddiweddarach.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON 2011-12

7.1 Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2011-12 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Aelodau cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w cymeradwyo ar 24 Medi 2012. Trwy gyflwyno'r cyfrifon i'r ddau bwyllgor, sicrheir bod pob Aelod o'r Awdurdod wedi cael cyfle i edrych ar y set ddiweddaraf o'r cyfrifon ac i roi sylwadau arnynt.

7.2 Cadarnhaodd y Trysorydd fod y datganiad a gyflwynwyd yn rhoi darlun cywir i'r hyn yr oedd yr Awdurdod wedi gwario arno erbyn diwedd Mawrth 2012. Nodwyd y bydd yr archwilwyr yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Trysorydd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw broblemau mawr gyda'r cyfrifon.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r Datganiad o Gyfrifon am 2010-11, ac nid oedd unrhyw sylwadau i'w hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio.**

8 ADRODDIAD MONITRO'R IAITH GYMRAEG

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a ofynnai i Aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2011-12 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiynydd Iaith.

8.2 Mae'r adroddiad monitro yn nodi sut mae'r Awdurdod a'r Gwasanaeth wedi bod yn datblygu ac yn defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyflwyno

gwasanaethau ac o fewn y Gwasanaeth ei hun. Mae cydweithio yn thema drwy'r ddogfen, ac mae'r Gwasanaeth yn cydweithio â'r heddlu, yr awdurdodau lleol a'r awdurdodau tân eraill er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac er mwyn sicrhau'r budd gorau i bawb. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ystadegau manwl am y gwaith a wneir i wella sgiliau Cymraeg y gweithwyr.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, a**

**(ii) cymeradwyo'r Adroddiad Monitro 2011-12 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.**

9 PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL

9.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau mewn perthynas â'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC). Cafodd yr Aelodau eu sicrhau y byddai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau'n annibynnol, a bod y PMC wedi cael ei sefydlu ar sail wirfoddol ac anffurfiol ac nid trwy amrywio'r Gorchymyn Cyfuno na Deddf Llywodraeth Leol.

9.2 Nodwyd bod cylch gorchwyl y PMC wedi cael ei gymeradwyo gan y tri ATA ym mis Mawrth 2012, a'i nod fyddai datblygu a gweithredu trefniadau gwell ar gyfer mynd ati'n strategol a chydlynedig i wneud gwaith ar y cyd.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i argymell fod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau yn ffurfiol. Mae'r Siarter Ymateb wedi ei chreu i gwrdd â gofyniad Llywodraeth Cymru fod pob ATA yn datblygu safonau ymateb ar gyfer mynychu tanau mewn anheddau yn ei ardal ei hun ac i ddarparu darlun clir i drigolion a phreswylwyr yng Nghymru o'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn yr ardal maent yn byw.

10.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi egwyddorion arweiniol sy'n nodi y dylai'r safon lleol ar gyfer ymateb i danau mewn anheddau geisio gostwng nifer y tanau mewn anheddau yn ardal yr ATA a nifer yr anafusion oherwydd tanau mewn anheddau. Dylai'r safon lleol hefyd gynnal neu wella diogelwch diffoddwyr tân a chydnabod pwysigrwydd cymhwysedd gweithredol ar gyfer staff sy'n ymgymryd â swyddi ar yr ochr weithredol. Oherwydd y gwahaniaethau trefol/gwledig yng Nghymru, ystyriwyd nad oedd safon ar gyfer Cymru gyfan yn addas, felly mae'r tri GTA wedi mynd ati gyda'i gilydd i lunio siarter gyda saith ymrwymiad cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sef:

- cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
- ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
- cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.

- ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
- cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
- ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
- ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

10.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau.**

RHAN II

11 Y RHAGLEN GYFALAF 2012/13

11.1 Cyflwynodd PSTC Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

11.2 <u>Prosiect Tân ac Ambiwlans Wrecsam</u> – mae'r cais cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ei dynnu'n ôl am y tro, tra fod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y cyngor. Nodwyd fod arwyddo'r Achos Busnes Terfynol yn amodol ar ganiatâd cynllunio manwl.

11.3 <u>Gwaith cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a Chydraddoldeb</u> - mae'r prosiect i sicrhau bod y gorsafoedd tân a'r safleoedd hynny sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth anabledd a chydraddoldeb bron â'i gwblhau. Disgwylir fod gwaith yng ngorsaf dân Betws y Coed yn cael ei gwblhau ym mis Tachwedd. Bydd hyn yn cwblhau'r prosiect, yn ddibynnol ar ryddhau tâl cadw'r contractwyr ar gyfer atebolrwydd am ddiffygion ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis.

11.4 Gorsaf dân <u>Nefyn</u> – Mae'r gwaith o archwilio'r safle a'r dyluniad manwl wrthi'n cael eu gwneud, a bydd cais cynllunio'n cael ei gyflwyno pan fydd y dyluniad wedi ei gwblhau.

11.5 Gorsaf dân <u>Tywyn</u> – mae'r prosiect hwn wedi cael ei ohirio tan yn nes ymlaen. Nodwyd y bydd mai'r un dyluniad fydd gan orsafoedd tân Nefyn a Tywyn, gyda lle'n cael ei greu ar gyfer plismona cymunedol lleol.

11.6 <u>Pencadlys GTAGC, Llanelwy</u> – cymeradwyodd y Panel Gweithredol brynu adeilad y Pencadlys yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Chwefror 2012. Roedd y chwiliadau cyfreithiol wrthi'n cael eu gwneud ar yr eiddo.

11.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**